

Datblygiad Dynol – ECEY4001/C

Yn y modiwl hwn, bydd pwnc datblygiad dynol yn cael ei drafod. Bydd yn cael ei rannu'n dair rhan sy'n cynnwys theori ac ymarfer.

Rhan Un – Datblygwch Ffeithlun i Archwilio Model Maslow yn Fanwl. (1000 air)

Rhan Dau – Archwiliwch Yn Fanwl Y Cysyniad o Ddatblygiad Plant Cyfannol Gyda Cysylltiadau a Model Maslow a Damcaniaethau Eraill Ynghylch Datblygiad. (1000 air)

Rhan Tri – Cynigiwch Tri Enghraifft O Arfer Y Blynnyddoedd Cynnar i Amlygu Arwyddocâd Maslow O Ran Deall Datblygiad Plant, A Dylai Un Ohonynt Gysylltu A Chyfnodau Trosglwyddo. (1000 air)

91 air

Rhan 1 - Datblygwch Ffeithlun i Archwilio Model Maslow yn Fanwl. (1000 air)



Mcleod, S (2024)

Mae ffeithlun yma yn trafod y damcaniaeth Maslow o Hierarchaeth Anghenion a thrafod y model mewn dyfnder.

Hierarchaeth Anghenion Maslow

Mae Abraham Maslow (1943) yn credu mewn y pump haen o anghenion er mwyn i pobl a/neu plant i cyrraedd y potensial llawn yn ei bywyd/mewn y profiadau.

48 air

Haen un – Yn y lle cyntaf, anghenion ffisiolegol. Mae hyn cynnwys pethau ffisegol i gefnogi pawb i fyw. Y peth cyntaf sy'n cymhelli ei'n ymddygiad o eni. Dywed Mcleod, S (2024) o Maslow bod lefel yma yn cynnwys bwyd, dwr, to, cynnes, dillad, anadlu. Noda Mcleod, S (2024) bod Maslow yn dweud bod y corff dim gallu byw/dilyn ei swyddogaeth heb yr anghenion yma. Hawlia Mcleod, S (2024) bod Maslow yn credu mai'r lefel hon yw'r pwysicaf i berson/plentyn. Gall neb gyflawni anghenion arall heb yr angen hwn. Unwaith y bydd yr angen hwn yn cael ei gyflawni, mae anghenion eraill yn dechrau dod yn bwysicach i unigolyn. Yn ôl Stoyanov, S (2017) o Maslow, bod anghenion yma yw pethau mae pawb angen yn ei bywyd er mwyn i oroesi. Hynny yw, mae angen yr hanfodion yma am ei chorff er mwyn i fyw. Yn yr un modd a Mcleod, S (2024), mae Stoyanov, S (2017) yn awgrymu bod Maslow yn credu pryd bod haen yn cael ei thynnu i ffwrdd, bod pethau yma yn fwy pwysig ar gyfer unigolion. Yn ôl Save The Children (2022), yn rhan o'r UNCRC, mae Erthygl 6 'Mae gen

ti hawl i fyw' yn cysylltu gyda damcaniaeth Abraham Maslow. Hawlia Stoyanov, S (2017) o Maslow bod anghenion ffisiolegol yn angen prif sy'n rhoi cymhellant i ni i fyw.

Haen dau – Yn ail, yw anghenion diogelu. Mae anghenion diogelu yn cynnwys y gymdeithas o gwmpas yr unigolyn/plant. Awgryma Mcleod, S (2024) bod enghraifft o hyn yw, arferol, rheolaeth yn ei bywyd, emosiynau, arian, rhyddid, iechyd, lles. Dywed Brodie, K (2024) bod yn y blynyddoedd cynnar, mae diogelu yn berthynas gyda gweithwyr, rhieni, ffrindiau, yn creu amgylchedd diogel er mwyn i blant chwarae, archwilio a dysgu mewn ffordd effeithiol. Yn ôl Stoyanov, S (2017), hawlia Maslow bod diogelu yn bwysig ar gyfer magu plant, yn cynnwys awgrymu bod plentyn yn angen byd sy'n ddiogel, taclus, glan a trefnus. Mae Stoyanov, S (2017) yn awgrymu bod Maslow yn dweud oes rhywbeth gwael yn digwydd yn ei bywyd, bod yn cael rhieni sy'n gryf, sy'n amddiffyn y plentyn o unrhyw niwed. Mewn Cymru, Yn ôl Llywodraeth Cymru (2020), mae pob ysgolion, meithrinfa, lleoliad o addysg yn cael arolygwyd gan Estyn neu Care Inspectorate Wales o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae arolygwyd yn edrych am sut mae lleoliad yn cadw eu plentyn yn ddiogel ac edrych mas am ei pholisïau o gwmpas diogelu plant. Mae hyn cysylltu gyda damcaniaeth Maslow o gwmpas y diogelu plant o fewn lleoliad.

Haen tri – Yn trydydd yn yr hierarchaeth, yw anghenion cariad a pherthyn. Mae anghenion yma yn cynnwys y perthnasau a chariad gydag unigolion eraill. Yn ôl Mcleod, S (2024), mae Maslow yn dweud hyn yn cynnwys ffrindiau, ymddiried, serchogrwydd a chariad. Yn aralleirio, anghenion emosiynol gyda ffrindiau, perthnasoedd, grwpiau, rhieni ac yn y blaen. Noda Brodie, K (2024) bod anghenion yma yn gryf mewn amser plentyndod sy'n cysylltu mewn diogelu gyda phlentyn sy'n dod o gefndir ACE's. Hefyd, mynna Brodie, K (2024) bod haen yma yn bwysig ar gyfer plentyn i ddatblygu sgiliau cymdeithasol trwy greu perthnasau ac yn y blaen. Dywed Stoyanov, S (2017) bod Maslow nodi oes angen yma o gariad a pherthyn yn cael ei gwrthodwyd, yw'r achosion mwyaf cyffredin o anhwylder meddwl. Gan gofio hyn, Mynna Stoyanov, S (2017) bod cariad yn angen pwysig. Oes unigolyn yn teimlo caru, nhw'n gwella o chwarae rôl gynhyrchiol yn y gymuned. Mewn fideo o Ham, J (2017) yn siarad am ddamcaniaeth John Bowlby o ymlyniad, awgryma Ham, J (2017) bod plentyn o ymlyniad sicr yn teimlo diogel yn y byd i archwilio a dysgu gan adnabod nhw cael y cariad ac ymlyniad sicr. Plentyn fel hyn yn trawsnewid i ysgol a dysgu gyda hyder oherwydd yr ymlyniad sicr.

Haen Pedwar – Yn dilyn yr hierarchaeth yw hunan barch. Noda Mcleod, S (2024) bod Maslow rhoi angen yma mewn dau gategori. Un am hunan barch em i hunain, urddas, cyflawniad, annibyniaeth. Dau am y dymuniad am barch gan eraill, statws. Mynna Mcleod, S (2024) bod angen yma o hunan barch yw awydd dynol nodweddiadol i gael eu derbyn a'u gwerthfawrogi gan eraill a bod pobl yn ymgysylltu mewn hobi, proffesiwn i helpu i ennill

cydnabyddiaeth i gael ei gwerth. Awgryma Stoyanov, S (2017) o Maslow bod y boddlonrwydd o angen hunan barch dilyn i deimladau o hunan hyder, gwerth, cryfder, gallu a digonolrwydd a hefyd y teimlad o fod yn ddefnyddiol ac yn hanfodol yn y byd. Awgryma Brodie, K (2024) bod darparu opsiynau am gydnabyddiaeth yn bwysig am ei datblygiad emosiynol a hunan barch. Yn ôl Trampler, R.E (2012), ffordd o adeiladu hunan barch yw teimlo fod ei chael ei derbyn. Myfyrwyr sy'n rhan o ddosbarth cynhwysol yn fwy tebygol i deimlo derbyn gan eraill pryd cymdeithasu gyda nhw. Gan gofio hyn, mae perthynas fel hyn yn cynyddu'r myfyrwyr hunan barch.

Haen pump – Yn olaf yn yr hierarchaeth yw hunan wireddu. Hawlia Stoyanov, S (2017) bod Maslow yn credu mai hunan wireddu yw unigolyn potensial llawn. Mae'n sôn am fod hin brin i rywun sydd wedi cyflawni popeth y maent wedi ceisio ei gyflawni. Yn ôl Stoyanov, S (2017), mae Maslow yn esbonio bod hunan wireddu yn deillio o awydd i gyflawni rhywbeth yn eich bywyd. Mynna Brodie, K (2024) bod hunan wireddu yn hunan gyflawni, edrych am dwf personol a phrofiadau gorau. O aralleirio, mae hunan wireddu yn cael ei adnabod fel 'profiadau brig'. Mae'r eiliadau hyn yn gysylltiedig â digwyddiadau personol er enghraifft genedigaeth, cyflawniad chwaraeon, neu lwyddiant mewn arholiadau, yn anodd eu cyflawni a'u cynnal yn gyson. Awgryma Brodie, K (2024) bod yn y blynyddoedd cynnar, gall plentyn mewn tasg heriol, yn gwtio ei ffiniau ac yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad, fod yn profi eiliadau o hunan-wireddu. Hawlia Brodie, K (2024) bod Maslow yn credu unigolyn sy'n cyflawni hunan wireddu yn arddangos y nodweddion o Ganfyddiad effeithlon o realiti. Gallent ddyfalu sefyllfaoedd yn gywir ac yn onest. Derbyn eich hun ac eraill. Maent yn derbyn eu hunain gyda'i holl ddiffygion, yn ogystal â natur eraill. Perthnasoedd personol dwfn. Maent yn ffurfio cysylltiadau dyfnach a mwy personol ag eraill, er yn aml gyda llai o bobl. Strwythur cymeriad democrataidd. Maent yn parchu pawb, waeth beth fo'u hil, crefydd neu gefndir.

1,031 air

Rhestr Gyfeirio -

Brodie, K. (2024). *Maslow's Hierarchy Of Needs*. Early Years Tv. UK. Ar gael yn: <https://www.earlyyears.tv/maslows-hierarchy-of-needs/> Cyrchwyd yn 28/11/24

Ham, J. (2017). *Secure Attachment*. Youtube. (dim lle). Ar gael yn: <https://www.youtube.com/watch?v=n2ypDPqs9A0> Cyrchwyd yn 28/11/24

McLeod, S. (2024). *Maslow's Hierarchy Of Needs*. Simply Psychology. London. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/maslow.html> Cyrchwyd yn 28/11/24

Save The Children Organisation. (2022). *Know Your Rights All Children Have The Same Rights*. UNCRC. London. Ar gael yn:
https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/gb/reports/humanitarian/uncrc_child-friendly_2022.pdf Cyrchwyd yn 28/11/24

Stoyanov, S. (2017). *An Analysis Of Abraham H. Maslow's Theory Of Human Motivation*. Macat International Limited. Milton. Ar gael yn:
<https://ebookcentral.proquest.com/lib/trinity/reader.action?docID=4906588&ppg=28>
Cyrchwyd ar 28/11/24

Trampler, R. (2012) Fire Scholars Inclusion Classrooms As It Relates To Self-Esteem, Behavior And Social Skills. SouthEastern University. Lakeland. Tudalen 14. Ar gael yn:
<https://firescholars.seu.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1025&context=honors> Cyrchwyd ar 28/11/24

Welsh Government (2020) Keeping Learners Safe A Summary Version. Llywodraeth Cymru, Wales. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-12/Keeping%20learners%20safe%20a%20summary%20version.pdf> Cyrchwyd ar 28/11/24

Rhan Dau - Archwiliwch yn fanwl y cysyniad o ddatblygiad cyfannol plentyn gyda damcaniaeth Maslow. (1000 air)

Ar gyfer rhan dau, bydd y cysyniad o ddatblygiad cyfannol plentyn yn cael ei drafod yn dri phwnc. Bydd hyn yn cynnwys Perthnasoedd, Diogelwch a Chwarae. Wrth drafod y pynciau hyn, bydd yn gysylltiedig â damcaniaeth Abraham Maslow o Hierarchaeth O Anghenion.

Beth yw cysyniad? Cred Reid, S (2024) bod gallu diffinio cysyniad fel syniad haniaethol neu gyffredinol sy'n deillio o achosion neu ddigwyddiadau penodol.

65 air

Perthnasoedd -

Er mwyn i deall y cysyniad o datblygiad cyfannol plentyn, mae hi'n bwysig i credu am perthnasoedd cadarnhaol.

Gadewch i ni ddechrau drwy archwilio'r pwysigrwydd ymlyniad o ddamcaniaeth John Bowlby i berthnasoedd cadarnhaol. Yn ôl McLeod, S (2024), mae damcaniaeth ymlyniad Bowlby yn awgrymu bod plant yn dod i'r byd yn fiolegol wedi'u rhaglennu ymlaen llaw i ffurfio ymlyniadau ag eraill, oherwydd bydd hyn yn eu helpu i oroesi. Mae Sprouts (2018) yn esbonio mewn fideo mae'r ddamcaniaeth ymlyniad yn dadlau bod ymlyniad emosiynol a chorfforol cryf yn hanfodol i'n datblygiad. Dywed, Sprouts (2018) os yw ymlyniad cryf a sicr, yna maent yn teimlo'n ddiogel i archwilio'r byd. Maent yn ymwybodol bod y sylfaen ddiogel honno bob amser, y gallent

ddychwelyd ato unrhyw bryd. Pobl sydd cael ymlyniad sicr, dywedir bod ganddynt fwy o ymddiriedaeth, yn gallu cysylltu ag eraill ac o ganlyniad yn fwy llwyddiannus mewn bywyd. Ond ar y llaw arall, cred Sprouts (2018), oes yw ein hymlyniad yn wan, teimlwn yn ansicr. Rydyn ni'n ofni gadael neu archwilio'r byd. Oherwydd nid ydym yn siŵr a allwn gael y sylfaen ddiogel. Fel arfer nid yw unigolion sydd wedi'u cysylltu'n ansicr yn ymddiried mewn eraill, yn brin o sgiliau cymdeithasol ac yn cael problemau wrth ffurfio perthynas.

Mae perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig ar gyfer datblygiad holistig plentyn oherwydd mae'n cysylltu gyda damcaniaeth Abraham Maslow o Hierarchaeth O Anghenion. Awgryma Brodie, K (2024) bod haen dau yn yr hierarchaeth yn cynnwys diogelu. Mae enghreifftiau yn cynnwys sicrwydd emosiynol amddiffyniad rhag damweiniau a niwed. Gall plentyn ddangos pryder pryd cael ei wahanu oddi wrth ei rieni, gan ddangos yr angen am amgylchedd diogel. Mewn blynyddoedd cynnar, mae anghenion diogelwch yn ymwneud â chreu amgylchedd diogel a rhagweladwy i blant ei archwilio a'i ddysgu yn diogel. Gan gofio hyn, yn ôl Brodie, K (2024), haen tri yn yr hierarchaeth o anghenion yn sôn am gariad a pherthynas. Mae hyn yn cysylltu gyda pherthnasoedd oherwydd mae haen yma yn cynnwys ffrindiau, teulu ac ymdeimlad o gysylltiad. Mynna Brodie, K (2024) bod angen cariad a pherthyn yn cyfeirio at yr angen emosiynol dynol am berthnasoedd personol. Mae enghreifftiau yn cynnwys cyfeillgarwch, agosatrwydd, ymddiriedaeth, derbyn, a derbyn a rhoi anwylydeb a chariad. Mae'r angen hwn yn gryf iawn yn ystod plentynod a gall ddiystyru'r angen am ddiogelwch, fel y dangosir gan blant sy'n mynd drwy ACE's. I blant, mae'r lefel hon yn bwysig o ran datblygu sgiliau cymdeithasol a chreu perthnasoedd â gofalwyr ac eraill. Yn y blynyddoedd cynnar proffesiynol, mae creu amgylchedd cynhwysol, cefnogol yn hanfodol i gefnogi'r anghenion hyn.

Diogelu -

Wrth archwilio'r cysyniad o ddatblygiad cyfannol plentyn, mae'n bwysig ystyried diogelwch.

Mae diogelu yn cysylltu gyda The Child Act 2004. Dywed Johnson, E (2019) bod y ddeddf yn caniatáu i unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliadau addysgol neu anaddysgol fel gwasanaethau gofal cymdeithasol ac sy'n gweithio gyda phlant wybod sut y dylid diogelu plentyn yng ngolwg y gyfraith. Y prif ddiben y ddeddf i wneud y DU yn lle mwy diogel i blant. Mynna WJEC (2018) bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gofalu am blant roi lles y plentyn yn gyntaf. Oes gweithiwr yn poeni am blentyn, rhaid iddynt gefnogi pryder hwn. O dan y ddeddf hon mae gan bob plentyn hawl i gael ei amddiffyn rhag camdriniaeth o unrhyw fath. O dan ddiogelu, mae'n cysylltu gyda'r UNCRC. Noda Save The Children (2022) o dan Erthygl 36, dylech blentyn cael ei diogelu rhag unrhyw weithgareddau eraill. A allai effeithio ar eich lles a'ch datblygiad.

Mae hyn yn cysylltu gyda datblygiad holistig plentyn trwy ddamcaniaeth Abraham Maslow. Yn ôl Brodie, K (2024), mae haen dau o'r hierarchaeth yn cynnwys diogelu. Mae anghenion

diogelwch yn ymwneud â chreu man diogel wedi'i baratoi i blant archwilio a dysgu'n rhydd. Mae creu awyrgylch diogel a rheolaidd yn bwysig i weithwyr y blynyddoedd cynnar er mwyn cefnogi'r anghenion hyn yn effeithiol. I blant, yn y lleoliadau blynyddoedd cynnar, mae cefnogi'r anghenion hyn yn arbennig o bwysig, gan mai dyma'n aml eu profiad cyntaf o amgylchedd strwythuredig y tu allan i fywyd cartref.

Chwarae -

Pryd ystyried cysyniad o datblygiad holistig plentyn, mae'n bwysig i adnabod chwarae.

Mae chwarae yn cael ei adnabod o dan y UNCRC. Awgryma Save The Children (2022) mewn Erthygl 28 bod pob plant yn cael yr hawl i addysg. Dylai addysg gynradd fod ar gael i bob plentyn a dylai fod am ddim. Uwchradd dylid caniatáu addysg i bob plentyn. Addysg uwch dylai fod ar gael i alluoedd. Disgyblaeth ysgol rhaid i chi barchu eich urddas a'ch hawliau. Mae chwarae yn cefnogi dysgu plant gyda damcaniaeth Janet Moyles. Yn ôl Smith, R (2021), mae 'theori droellog' yn datgan y dylid caniatáu i blant chwarae ag adnoddau'n rhydd yn gyntaf, yna cymryd rhan mewn chwarae strwythuredig ac yna chwarae'n rhydd eto. Bydd y chwarae rhydd cyntaf yn galluogi'r plant i archwilio ar eu pen eu hunain tra bod y chwarae strwythuredig yn galluogi ymarferwyr i ymestyn y chwarae, er enghraifft, geirfa newydd. Yn olaf, gall y plentyn chwarae'n rhydd eto wrth ddefnyddio ei wybodaeth neu sgiliau newydd.

Mae chwarae yn cysylltu gyda datblygiad holistig plentyn trwy hunan barch y plentyn. Hawlia Brodie, K (2024) bod haen pedwar yn yr hierarchaeth o anghenion. Yn y blynyddoedd cynnar, mae anghenion parch yn rhagfynegi mewn sawl ffordd. Mae plentyn sy'n dangos eu gwaith celf gyda balchder neu'n chwilio am ganmoliaeth am gwblhau tasg yn dangos yr angen am barch. Mae gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi hunan-barch plant trwy atgyfnerthu cadarnhaol, cydnabod cyflawniadau, a chyfleoedd ar gyfer profiadau hanfodol. Gyda chwarae, mae'n cynnwys profiadau. Trwy adeiladu ei phrofiadau yn dilyn damcaniaeth Janet Moyles, mae'n adeiladu i haen pump, yr haen olaf yn yr hierarchaeth o anghenion. Mae'r cam hwn yn cynnwys y dymuniad i gyrraedd y potensial llawn, ceisio twf personol, a chael profiadau uchaf. Yn y lleoliad blynyddoedd cynnar, gall plentyn sy'n cymryd rhan lawn mewn tasg heriol, gan wthio ei ffiniau a theimlad o gyflawniad, fod yn profi eiliadau o hunan-wireddu.

986 air

Cyfeirnod -

Brodie, K. (2024). *Maslow's Hierarchy Of Needs*. Early Years Tv. UK. Ar gael yn: <https://www.earlyyears.tv/maslows-hierarchy-of-needs/> Cyrchwyd ar 1/12/24

Johnson, E(2019). *What is the Children Act 2004?* iHasco, UK. Ar gael yn: <https://www.ihasco.co.uk/blog/what-is-the-childrens-act-2004>. Cyrchwyd ar 30/11/24

McLeod, S. (2024). *John Bowlby's attachment theory*. Simply Psychology, London. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/bowlby.html>. Cyrchwyd ar 29/11/24

Reid, S. (2024). *How to explain a concept clearly and concisely*. Loops, London. Ar Gael yn: <https://www.useloops.com/blog/how-to-explain-a-concept-clearly-and-concisely>. Cyrchwyd ar 28/11/24

Save The Children Organisation. (2022). *Know Your Rights All Children Have The Same Rights*. UNCRC. London. Ar gael yn: https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/gb/reports/humanitarian/uncrc_child-friendly_2022.pdf Cyrchwyd yn 1/12/24

Smith, R. (2021). *Learning through play in early years*. NDNA blog, England. Ar gael yn: <https://ndna.org.uk/blog/learning-through-play-in-early-years/>. Cyrchwyd ar 30/11/24

Sprouts (2018). *The Attachment Theory - How Your Childhood Affects Your Relationships*. YouTube (dim lleoliad). Ar gael yn: <https://www.youtube.com/watch?v=WjOowWxOXCg> Cyrchwyd ar 28/11/24

WJEC (2018). *Safeguarding Children*. Amazonaws.com, UK. Ar gael yn: http://resource.download.wjec.co.uk.s3-eu-west-1.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_3-4/_multi-lang/unit01/03-legislation-national-policies-the-rights-of-children.html. Cyrchwyd ar 29/11/24

Rhan Tri – Cynigiwch Tri Enghraifft O Arfer Y Blynnyddoedd Cynnar i Amlygu Arwyddocâd Maslow O Ran Deall Datblygiad Plant, A Dylai Un Ohonynt Gysylltu A Chyfnodau Trosglwyddo. (1000 air)

Ar gyfer rhan 3, bydd tair enghraifft o arfer blynnyddoedd cynnar yn cael eu trafod megis pam eu bod yn bwysig, sut mae'n cysylltu â damcaniaeth Abraham Maslow o'r Hierarchaeth Anghenion a pham ei bod yn bwysig i ymarferwyr blynnyddoedd cynnar ddeall a'r enghreifftiau hyn.

45 air

Tri Enghraifft -

1. Deall pwysigrwydd anghenion sylfaenol:

Byddai'r ymarferwyr yn cynnwys deall UNCRC a sut i gefnogi a dadlau ynghylch y rhain yn yr ystafell ddosbarth. Dywed Save The Children (2022), bod yn y UNCRC, Erthygl 27, ar gyfer eich datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol. Os yw eich prif ofalwr yn cael anawsterau i ddarparu'r anghenion hyn, dylai'r llywodraeth helpu – yn enwedig gyda maeth, dillad a thai. Ar wahân i hynny, gellid hefyd ystyried y Child Act 2004. Noda Johnson, E (2019) mae'r ddeddf yn caniatáu i unrhyw un sy'n gweithio yn y lleoliadau addysg neu'r tu allan i addysg fel gwasanaethau cymdeithasol ac sy'n gweithio gyda phlant wybod sut y dylid gofalu am blentyn yng ngolwg y llywodraeth. Prif ddiben y ddeddf yw gwneud y UK yn lle mwy diogel i blant. Noda Johnson, E (2019) yr egwyddorion o Child Act 2004. Sy'n cynnwys, Caniatáu i blant fod yn iach. Cefnogi plant i fod yn hapus a mwynhau bywyd. Galluogi plant i fod yn ddiogel yn eu hamgylcheddau. Helpu plant i gyflawni. Helpu i lwyddo sefydlogrwydd economaidd ar gyfer dyfodol plant. Helpu i gymryd rhan yn gadarnhaol mewn bywydau plant.

Mae'n bwysig i ymarferwyr ddeall anghenion sylfaenol plant oherwydd mae'n cysylltu gyda damcaniaeth Abraham Maslow o'r Hierarchaeth O Anghenion. Mae anghenion sylfaenol yn cysylltu gyda haen un yn yr hierarchaeth o anghenion ffisiolegol. Dywed Brodie, K (2024) bod angen yma yn cynnwys bwyd, dwr, dillad, to, cwsg ac yn y blaen. Ein hangen pwysicaf yw goroesiad corfforol, sef prif gymhellant ein hymddygiad. Mynna Brodie, K (2024) mae anghenion ffisiolegol yn chwarae rhan bwysig yng ngallu plentyn i gymryd rhan a dysgu. Er enghraifft, efallai y bydd plentyn nad yw wedi cael brecwast yn cael anhawster i weithio ar weithgareddau nes bod yr angen sylfaenol hwn wedi'i fodloni. Rhaid i ymarferwyr fod yn gefnogol i'r anghenion sylfaenol hyn i sicrhau bod plant mewn cyflwr addas ar gyfer dysgu a datblygu.

2. Creu amgylchedd diogel a sefydlog

Gall ymarferwyr blynnyddoedd cynnar greu amgylchedd diogel a sefydlog trwy ddarparu lle diogel o fewn y dosbarth. Dywed Western Governors University (2022) mae'n bosibl y bydd rhai o'ch myfyrwyr yn dod o rai amgylcheddau cartref ac mae'r ysgol yn un o'r ychydig ddiangfeydd, a dyna pam ei bod yn bwysig eich bod yn ei wneud yn amgylchedd cefnogol sydd ei angen ar y myfyrwyr. Yna gall pob myfyriwr deimlo'n gyfforddus ac wedi'i rymuso i ddysgu a mynegi ei hun. Hawlia Western Governors University (2022) bod dathlu cyflawniadau yn ffordd i greu amgylchedd diogel a sefydlog. Mae defnyddio'r dull hwn yn yr ystafell ddosbarth yn golygu dathlu buddugoliaethau mawr a bach y myfyrwyr fel ei gilydd. Mae atgyfnerthu cadarnhaol hefyd yn rhan fawr o'r ymagwedd ystafell ddosbarth hon. Trwy ganmol cryfderau'r myfyrwyr, adeiladu eu hyder dros amser.

Mae hyn yn cefnogi plant i deimlo'n ddiogel oherwydd mae'n dilyn yr Hierarchaeth O Anghenion i gyrraedd y potensial llawn y plentyn heblaw am ei chefnidir. Yn ôl Brodie, K

(2024) yn y maes addysg blynyddoedd cynnar, mae anghenion diogelwch yn cynnwys creu amgylchedd diogel a rhagweladwy i blant ei archwilio a'i ddysgu. I blant, mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, mae diwallu'r anghenion hyn yn arbennig o bwysig, gan mai dyma'r profiad cyntaf yn aml o amgylchedd strwythuredig y tu allan i'r cartref.

3. Trosglwyddiadau

Dylai ymarferwyr gefnogi plant trwy gyfnodau trawsnewid trwy adeiladu perthnasoedd cadarnhaol. Cred Patel, A (2019) trwy adeiladu perthynas gref a pharchus rhwng rhieni ac ymarferwyr, mae'n gosod y gefnogaeth ar gyfer trawsnewid cadarnhaol. Yn bwysig, mae rhieni'n cael cysur o ffurfio perthynas â'r rhai sy'n gofalu am eu plentyn, tra bod sgysiau hawdd, clir rhwng oedolion arwyddocaol yn rhoi sicrwydd mawr i blant. Yn ôl Patel, A (2019), mae pob plentyn yn wynebu cyfnodau trawsnewid trwy gydol y dydd; Mae ymarferwyr yn cynllunio arferion cysur ond hyblyg i helpu plant i ymdopi. Awgryma Patel, A (2019) bod ymarferydd angen weld trosglwyddiadau fel gweld trawsnewid fel proses nid digwyddiad; cynllunio ymlaen llaw a gwerthfawrogi pryderon plant a'u teuluoedd. Gwneud trawsnewid a lles plant yn bwysig. Gofynnwch am becynnau croeso gan yr ysgolion y bydd y plant yn rhan ohonynt, gan ddsbarthu dyddiadau allweddol a gwybodaeth i rieni. Sicrhewch fod mannau ar gael i rieni gyfarfod a rhyngweithio wrth iddynt ddod i mewn i'r lleoliad. Yn yr un modd, mae'n bwysig i ystyried trosglwyddiadau eraill fel newid yn fywyd plentyn yn y tŷ felly, mae hi'n bwysig i weithio'n amlasiantaethol. Hawlia Croneri-i (2024) Dylai ymarferwyr weithio gyda phlant a'u teuluoedd i roi amgylchedd diogel a allai gefnogi anghenion unigol y plentyn. Mae meithrin perthynas gadarn gyda gweithiwr allweddol yn bwysig i gefnogi'r trawsnewidiadau hyn. Neu gall cadw at arferion tebyg, er enghraifft mynd i feithrinfa, helpu i leihau pryder plentyn. Cred Croneri-i (2024) bod cael teganau yn yr ardal chwarae rôl i blant eu defnyddio i fynegi eu hunain a chaniatáu iddynt ddangos eu hemosiynau trwy gelf a phaentio.

Trwy wneud hyn, mae'n cefnogi plentyn i ddatblygu'n gyfannol oherwydd mae'n rhoi siawns i ymarferydd i arsylwi'r plentyn yn y trawsnewidiadau er mwyn i gefnogi yn fwy. Dywed Frued, A (2024) gall fod yn arbennig o heriol i blant a gall effeithio ar eu hymdeimlad o berthyn i leoliad. Gall hefyd effeithio ar gyfeillgarwch yn ogystal â pherthynas â staff yr ysgol a chymuned y lleoliad cyfan. Gallai hyn effeithio ar eu hyder, eu hunan-barch a'u cyrhaeddiad. Ar y llaw arall, mae cefnogi trosglwyddiadau yn cefnogi damcaniaeth Abraham Maslow o Hierarchaeth O Anghenion. Mae'n cefnogi haen tri yn yr hierarchaeth o berthyn a chariad. Dywed Brodie, K (2024) Gweithwyr blynyddoedd cynnar, mae cefnogi amgylchedd cynhwysol, cefnogol yn hanfodol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Gall gweithgareddau sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, cydweithredu ac ymdeimlad o gymuned helpu plant i fodloni'r trawsnewid. Mae cefnogi trawsnewid plentyn yn cefnogi'r

hierarchaeth trwy adeiladu lan i botensial llawn y plentyn yn ystod y newid. Cred Brodie, K (2024) gan wthio eu ffiniau a theimlo ymdeimlad o lwyddiant ynddynt eu hunain, efallai eu bod yn profi hunan-wireddu.

Casgliad -

Mae Maslow yn bwysig i'r blynyddoedd cynnar oherwydd bydd theori Hierarchaeth anghenion bob amser yn cysylltu ag ymarfer rhywsut. Gan gymryd y tair enghraifft hyn, roedd yn bosibl eu cysylltu â damcaniaeth Abraham Maslow. Mae'n bwysig i ymarferwyr ddeall a defnyddio ei ddamcaniaeth yn ymarferol er mwyn gallu cefnogi plant i gyrraedd eu llawn botensial.

1,083 air

Cyfeirnod -

Brodie, K. (2024). *Maslow's Hierarchy Of Needs*. Early Years Tv. UK. Ar gael yn: <https://www.earlyyears.tv/maslows-hierarchy-of-needs/> Cyrchwyd ar 1/12/24

Croner-i (2024). *Managing Transitions in Early Years Provisions*. Croner-i, London. Ar gael yn: <https://app.croneri.co.uk/feature-articles/managing-transitions-early-years-provisions>. Cyrchwyd ar 1/12/24

Freud, A. (2024). *Transitions*. Mentally Healthy Schools, (dim lleoliad) . Ar gael yn: <https://www.mentallyhealthyschools.org.uk/factors-that-impact-mental-health/school-based-risk-factors/transitions/>. Cyrchwyd ar 1/12/24

Johnson, E(2019). *What is the Children Act 2004?* iHasco, UK. Ar gael yn: <https://www.ihasco.co.uk/blog/what-is-the-childrens-act-2004>. Cyrchwyd ar 30/11/24

Patel, A. (2019). *Supporting Transitions in the Early Years*. Teach Early Years, Artichoke Media LTD, UK . Ar gael yn: <https://www.teacheearlyyears.com/a-unique-child/view/supporting-transitions-in-the-early-years>. Cyrchwyd ar 1/12/24

Western Governors University (2022). *15 Tips for Creating a Safe Learning Environment*. Western Governors University, (dim lleoliad) . Ar gael yn: <https://www.wgu.edu/blog/15-tips-creating-safe-learning-environment2202.html>. Cyrchwyd ar 1/12/24